| **Amcanion Ymgynghorwyr** | **Adroddiad Cynnydd yn ystod 2022** |
|---|---|
| 1.I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa i gefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. | Mae cyngor wedi ei dderbyn ar y Strategaeth Buddsoddi yn ystod 2022 yn cynnwys cyngor ar ailfansio yn dilyn buddsoddiadau ecwiti yn gorberfformio ac arallgyfeirio'r portffolio i gyflwyno buddsoddiadau marchnadoedd preifat newydd, a chyfleoedd posibl i warchod amlygiad y Gronfa i arian cyfred. |
| 2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol. | Mae amcanion strategol y Gronfa wedi eu nodi yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi ac mae'r Prisiad Actiwaraidd wedi cadarnhau bod y strategaeth buddsoddi yn rhoi tebygolrwydd uchel o gwrdd ag amcanion y Gronfa. |
| 3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Mae'r ymarfer yma yn cael ei gynnal gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae cyngor wedi ei ddarparu ar gyfleodd marchnadoedd preifat fydd ar gael drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. |
| 4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau pensiwn perthnasol a chyngor arweiniol. | Mae'r holl drefniadau'n parhau i gydymffurfio. Ni fu unrhyw newidiadau rheoliadol diweddar yr oedd y Gronfa angen fod yn ymwybodol ohonynt, ond mae'r Gronfa yn parhau i fonitro newidiadau disgwyliedig deddfwriaethol (TCFD). |
| 5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol. | Mae'r Gronfa wedi datblygu polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ystod 2022 a adolygwyd gan Hymans. |
| 6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol. | Mae cyngor parhaus wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau newydd, ac mae hyn wedi bod yn gyson gyda'r strategaethau'r Pwyllgor, yn enwedig o ran camau pellach yn ystod 2022 i fuddsoddi'n fwy cyfrifol.<br><br>Mae'r ymgynghorydd buddsoddi wedi ffurfio perthynas waith gref gyda swyddogion y Cyngor a'r Pwyllgor, ac mae ei gyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, e.e. dyraniad asedau strategol diwygiedig y Gronfa a'r ymateb i ymgynghoriad 'TCFD'. |

| | |
|---|---|
| 7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. | Mae cyngor a diweddariadau cyson yn cael eu darparu, yn cynnwys monitro perfformiad chwarterol, cyngor ar ailfalansio, a chefnogaeth wrth drosglwyddo asedau.<br><br>Tra bu'r cyngor 'arferol' yn amserol, gallai cyngor 'amgen' weithiau fod yn fwy rhagweithiol ac amserol, e.e. nodwyd y cyfle 'currency hedging' gan swyddogion y Cyngor a cymerodd yr ymgynghorydd amser i fireinio'r cynigion. |
| 8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi. | Nid yw Hymans wedi darparu hyfforddiant uniongyrchol ar ddosbarthiadau ased, ond mae aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant gan Hymans ac eraill drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Hymans yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiadau o fewn y farchnad drwy gyflwyno'r adroddiadau perfformiad chwarterol. |
| 9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG. | Mae'r adroddiadau chwarterol yn cynnwys gradd Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer pob cwmni rheoli asedau. |
| 10. Bydd y gwasanaethau i gefnogi llywodraethu parhaus y Gronfa yn gymesur a cystadleuol o ran costau wrth gymharu gyda chyfoedion. | Mae ffioedd Hymans yn unol â ffioedd eu cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd, a chost amser ar gyfer tasgau ychwanegol. |
| 11. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn gweithio o fewn cyllidebau cytunwyd arnynt a bydd yn dryloyw o ran costau cynghori, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw. | Mae ymgynghorydd Hymans yn anfon anfonebau rheolaidd gyda dadansoddiad manwl. Fodd bynnag, nid yw cost y gwaith bob amser yn glir tan ar ôl i'r anfoneb gael ei chyflwyno. Wrth symud ymlaen, byddai'n dda cytuno ar amcangyfrifon o gostau ymlaen llaw. |
| 12. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl. | Mae ymgynghorydd Hymans yn gweithio gydag actiwari'r gronfa (hefyd o Hymans) ac mae'n cysylltu fel bo angen gyda rheolwyr asedau a'r 'custodian'.<br><br>Mae Hymans hefyd yn cynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan osgoi dyblygu a sicrhau gwasanaeth di-dor. |

**Gwrthdaro buddiannau – datgeliad**

Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem hefyd dynnu eich sylw at sut mae Hymans Robertson LLP yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau wrth roi cyngor ar ymarferion dewis rheolwyr. Byddem yn hapus i drafod y datganiad isod gyda chi i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Sylwch fod gan Hymans Robertson LLP a'n cwmnïau grŵp ystod eang o gleientiaid, y mae rhai ohonynt yn rheolwyr cronfa, a all fod yn bartïon yn ein hargymhellion i chi mewn amgylchiadau amrywiol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis rheolwyr, symud arian i neu o rheolwr neu gefnogi cadw neu ddadfuddsoddi gan reolwr. Mae gennym dîm ymchwil sy'n rhoi cyngor ar lunio rhestr fer o reolwyr cronfeydd mewn ymarferion dewis rheolwyr a ffurfio barn ar reolwyr, sydd ar wahân i'n cleient a pherthnasoedd eraill gyda rheolwyr cronfeydd - felly nid ydym yn credu y bydd gwrthdaro a fyddai'n dylanwadu ar y cyngor a roddir.

Mewn rhai achosion, mae gennym drefniadau/cytundebau busnes masnachol gyda chleientiaid o fewn y sector ariannol lle rydym yn darparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwbl ar wahân i unrhyw gyngor y gallwn ei ddarparu wrth argymell cynhyrchion i'n cleientiaid ymgynghorol. Darperir ein hargymhellion o ganlyniad i anghenion cleientiaid ac maent yn seiliedig ar ein hymchwil annibynnol. Lle ceir gwrthdaro canfyddedig neu wrthdaro posibl, gellir darparu argymhellion eraill.